

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 4 Ebrill 2018

Rhif Union: 01824706141

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 10 EBRILL 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### **4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD (Tudalennau 5 - 6)**

Nodi ymrwymadau dinesig a ymgwymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

#### **5 COFNODION (Tudalennau 7 - 24)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 30 Ionawr a 20 Chwefror 2018 (copi ynghlwm).

**6 TREFNIADAU AR GYFER ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

(Tudalennau 25 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Ad a Democrataidd (copi ynghlwm) yn argymhell bod y Cyngor yn cytuno y bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn gyngor 2018/2019 yn cael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 15 Mai 2018.

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** (Tudalennau 27 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) i wneud y Cyngor yn ymwybodol o benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2018/19 mewn perthynas â thaliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

**8 HYFFORDDIANT A DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 35 - 38)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) i roi diweddariad ar faterion hyfforddi aelodau.

**9 DATGANIAD POLISI TÂL 2018/19** (Tudalennau 39 - 88)

Ystyried adroddiad gan yr Arbenigwr Tâl a Gwobrwyo AD (copi ynghlwm) i geisio cytundeb y Cyngor i'r newidiadau i'r Polisi Tâl ar gyfer 2018/19.

**10 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

“Mae'r Cyngor yn gwaredu'r modd mae Coleg Llandrillo Menai wedi delio gyda'r bwriad i gau Coleg Dinbych ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd.”

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 89 - 90)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Pete Prendergast  
(Cadeirydd)

Mabon ap Gwynfor  
Brian Blakeley  
Joan Butterfield  
Jeanette Chamberlain-Jones

Richard Mainon  
Christine Marston  
Barry Mellor  
Melvyn Mile

Ellie Chard  
Ann Davies  
Gareth Davies  
Meirick Davies  
Peter Arnold Evans  
Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Rachel Flynn  
Tony Flynn  
Huw Hilditch-Roberts  
Martyn Holland  
Hugh Irving  
Alan James  
Brian Jones  
Huw Jones  
Pat Jones  
Tina Jones  
Gwyneth Kensler  
Geraint Lloyd-Williams

Bob Murray  
Merfyn Parry  
Paul Penlington  
Arwel Roberts  
Anton Sampson  
Peter Scott  
Glenn Swingler  
Andrew Thomas  
Rhys Thomas  
Tony Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Graham Timms  
Joe Welch  
Cheryl Williams  
David Williams  
Eryl Williams  
Huw Williams  
Emrys Wynne  
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Eitem Agenda 4

## Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman

<u>Dyddiad/Date</u>	<u>Digwyddiad/Event</u>	<u>Lleoliad/Location</u>
22/02/18	Ymweliad Ysgol i Neuadd y Sir School Visit to County Hall	Rhuthun / Ruthin
24/02/18	Noson yn yr Opera – Derbyniad a Chyngerdd Dathliad Gala a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Glyndŵr A Night at the Opera – Gala Celebration Reception and Concert held at Glyndwr University	Wrecsam / Wrexham
24/02/18	Noson Amrywiaeth Elusennol Maer Caerwys Mayor of Caerwys Charity Variety Evening (Mynychodd yr Is-Gadeirydd / Vice-Chair attended)	Caerwys
01/03/18	Cinio Elusennol y Cadeirydd Chairman’s Charity Dinner	Y Rhyl / Rhyl
02/03/18	Dawns Elusennol Maer Llanelwy Mayor of St. Asaph’s Charity Ball	Llanelwy / St. Asaph
04/03/18	Digwyddiad Codi Arian Cŵn Bach ar y Prom Pups on the Prom Fundraising Event	Y Rhyl / Rhyl
08/03/18	Seremoni Ddinasyddiaeth Citizenship Ceremony (Mynychodd yr Is-Gadeirydd / Vice-Chair attended)	Rhuthun / Ruthin
08/03/18	Seremoni Wobrwyo’r Arglwydd Raglaw Clwyd The Lord Lieutenant of Clwyd Awards Ceremony (Mynychodd yr Is-Gadeirydd / Vice-Chair attended)	Bodelwyddan
12/03/18	Digwyddiad Codi Baner Diwrnod y Gymanwlad Commonwealth Day Flag Raising Event	Rhuthun / Ruthin
14/03/18	Ymweliadau Ysgolion <i>Reach Out and Read</i> (‘ROAR’) Reach Out and Read (‘ROAR’) School Visits	Dinbych / Denbigh
14/03/18	Cyflwyniad i’r Gynghrair Cyfeillion yn Ysbyty Glan Clwyd Presentation to League of Friends at Glan Clwyd Hospital	Bodelwyddan
15/03/18	Agoriad Swyddogol Ysgol Glan Clwyd gan Brif Weinidog Cymru Official Opening of Ysgol Glan Clwyd by the First Minister for Wales	Llanelwy / St. Asaph
16/03/18	Cinio Dinesig Elusennol Cadeirydd Sir y Fflint Chairman of Flintshire Charity Civic Dinner	Yr Wyddgrug / Mold

19/03/18	Ymweliad Urdd Merched Tref y Rhyl i Neuadd y Sir Rhyl Town Women's Guild visit to County Hall	Rhuthun / Ruthin
23/03/18	Gwobrau Cymunedol Uwch Siryf Clwyd High Sheriff of Clwyd Community Awards	Rhuthun / Ruthin

## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Iau, 25 Ionawr 2018 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau AD (CR), Partner Busnes Arweiniol - Datblygu Trefniadaeth (AM) a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP).

Ymgynghorydd Recriwtio (IJ)

### 1 YMDDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Peter Evans, Hugh Irving, Alan James, Tina Jones, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Merfyn Parry a Paul Penlington.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

*PENDERFYNWYD - Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bod yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 ac 14 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf).*

### 3 PENODI PRIF WEITHREDWR

Bu i ymgynghorydd recriwtio'r Cyngor adrodd ar y broses recriwtio a gynhaliwyd, a arweiniodd at nifer fawr o geisiadau a rhestr fer o 6 ymgeisydd ar gyfer y broses asesu. Cynghorwyd Aelodau bod Panel Penodiadau Arbennig o gynghorwyr wedi nodi dau ymgeisydd gyda'r potensial i gael eu penodi, ac fe'u gwahodwyd i fynychu cyfarfod y Cyngor heddiw.

Rhoddodd y ddau ymgeisydd gyflwyniad i'r Cyngor ac ymateb i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau; cafodd y ddau ymgeisydd yr un cwestiynau.

Wedi i'r ddau ymgeisydd adael y Siambr, trafododd yr aelodau eu cyflwyniadau, ymatebion i'r cwestiynau a'u perfformiad yn ystod y broses asesu.

***PENDERFYNWYD – penodi Judith Greenhalgh i swydd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych.***



## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Prif Swyddog Cyllid/Adran 151 (RW), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Peter Evans a/ac Hugh Irving

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Ellie Chard, Gareth Davies, Meirick Lloyd Davies, Bobby Feeley, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Tina Jones, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Cheryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a Mark Young gysylltiad personol ag Eitem 6 – Cyllideb 2018/19 – Cynigion Terfynol.

#### 3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

#### 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2017 ac 19 Ionawr 2018 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** derbyn y rhestr o ymrwymadau dinesig y bu i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu mynychu.

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2017.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir, a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 6 CYLLIDEB 2018/19 – CYNIGION TERFYNOL

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2018/19 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2018/19.

Roedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod lefel Treth y Cyngor yn unol â hynny i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

Derbyniwyd Setliad Llywodraeth Leol Terfynol 2018/19 ar 20 Rhagfyr 2017 ac roedd yn cynnwys gostyngiad ariannol o -0.2% (cyfartaledd Cymru oedd +0.2%). Roedd y Setliad Dros Dro a dderbyniwyd ym mis Hydref 2017 yn nodi gostyngiad o -0.9% (cyfartaledd Cymru oedd 0.5%).

Roedd y newid rhwng y ddau swm yn adlewyrchu £20 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i lywodraeth leol fel rhan o gynigion cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn dilyn cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i Gymru o ganlyniad i gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd ac roedd yn lliniaru effaith cynnig bwlch cyflog diweddaraf y cyflogwyr, a oedd yn uwch na'r disgwyl ac yn adlewyrchu newid i'r polisi o gap o 1% ar gyflogau.

Nid oedd yn gynaliadwy rheoli'r pwysau parhaus heb gynyddu sail gyllid y Cyngor yn barhaol. Gan fod cymorth ariannol Llywodraeth Cymru'n gostwng bob blwyddyn, roedd yn rhaid ysgwyddo'r baich yn lleol. Felly, cynigiwyd cynnydd uwch i Dreth y Cyngor na'r hyn a gynigiwyd i ddechrau.

Byddai'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.75% yn codi £945,000 ychwanegol i'w ddefnyddio'n rhan o'r pecyn cyffredinol, a oedd yn cynnwys dyraniad ychwanegol i ofal cymdeithasol o £1.5 miliwn.

Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Cadarnhawyd i'r Aelodau bod elfen wastraff y Grant Amgylcheddol Sengl wedi derbyn toriad o 10% ar y cyfan. Oherwydd y toriad yn swm y grant, roedd dau aelod o staff wedi'u hail-leoli mewn swyddi eraill.
- Cadarnhawyd y byddai Archeolegydd y Sir yn ymddeol a dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai'r swydd wag yn cael ei llenwi. Byddai hyn yn unol â phum awdurdod lleol arall Gogledd Cymru. Pe bai angen cyngor archeolegol arbennig, byddai angen ei brynu yn ôl yr angen.

- Ni fyddai'r gyllideb ddinesig bellach yn noddi cyngherddau gyda'r nos yn Eisteddfod Llangollen.
- Oherwydd y newid i'r Gyfraith ar Ddiogelu Data, holwyd a fyddai unrhyw gostau. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai'n holi a fyddai costau ac y byddai'n rhoi gwybod i'r Aelodau.
- Roedd newid sylweddol wedi bod ers gweithdai'r gyllideb a gynhaliwyd fis Tachwedd 2017 mewn perthynas â'r fargen dâl gyffredinol. Roedd cap cyflog o 1% wedi'i ystyried yn y gyllideb, ond y cynnig terfynol oedd 2.4%.
- Roedd angen edrych sut y byddai'r sir yn delio gyda'r problemau o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thlodi plant hefyd.

Bu i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd ganmol y swyddogion a oedd wedi llunio adroddiad y gyllideb. Cadarnhawyd bod y gyllideb yn ddogfen gadarnhaol o dan yr amgylchiadau presennol.

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts ddiwygiad i'r argymhelliad y gellid trosglwyddo £500,000 o gronfeydd wrth gefn i'r adran addysg oherwydd bod nifer o ysgolion yn profi anhawster ac o dan bwysau eithriadol. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Eryl Williams. Ar y pwynt hwn, eglurodd y Cynghorydd Roberts y dylid trosglwyddo'r £500,000 ychwanegol o falansau i'r adran addysg er mwyn i ysgolion wneud cynigion amdano ar gyfer cyllid ychwanegol i gefnogi disgyblion a oedd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Pleidleisiwyd ar y diwygiad fel a ganlyn:

O blaid y diwygiad - 13

Ymatal - 1

Yn erbyn y diwygiad - 31

Felly, ni chafodd y diwygiad ei gymeradwyo.

Cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr argymhellion a oedd yn yr adroddiad, ac fe'u heiliwyd gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans a dyma oedd:

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn:

- (i) Nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2018/19
- (ii) Cymeradwyo'r gyllideb a amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a gyflwynwyd i aelodau yng nghyfarfodydd briffio'r gyllideb a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017
- (iii) Cymeradwyo cyfanswm o £411,000 o arbedion sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2, fel rhan o becyn y gyllideb
- (iv) Cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o 4.75% yn Nhreth y Cyngor, sy'n cydnabod y pwysau cynyddol o ran costau ar wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion ac yn cefnogi'r dyraniad o £1.5 miliwn o gyllid ychwanegol ar draws y ddau wasanaeth
- (v) Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o broses y gyllideb

**Ar y pwynt hwn (11.55 am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.15 p.m.**

## **7 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR 2018/19**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, adroddiad Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor 2018/19 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth y cyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. O 31 Mawrth 2013 roedd budd-dal treth y cyngor wedi dod i ben ac roedd y cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth ar gyfer treth y cyngor a'r arian sy'n gysylltiedig ag ef, wedi cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth treth y cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r ddau set o reoliadau ar 9 Ionawr 2018 ac roedd angen mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau diwygiadau 2018 erbyn 31 Ionawr 2018.

### **PENDERFYNWYD:**

- *Bod Aelodau yn mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) (Diwygio) 2018, o ran blwyddyn ariannol 2018/19.*
- *Bod Aelodau'n cymeradwyo'r 3 elfen ddewisol o'r cynllun, a ddangosir yn adran 4.2 yr adroddiad ar gyfer 2018/19.*

## **8 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Joan Butterfield y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

“Mae Cyngor Sir Ddinbych yn anelu i fod yn gyflogwr Cyflog Byw Go lawn erbyn mis Ebrill 2020. Mae'r Cyngor yn gofyn i swyddogion baratoi papur i'w drafod gan y Cyngor Llawn ar 11 Medi 2018 yn amlinellu sut y gellir gweithredu hyn”.

Rhoddodd y Cynghorydd Graham Timms amlinelliad o ddechrau'r Sefydliad Cyflog Byw Go lawn a sefydlwyd yn 2001. Mae gan yr ymgyrch am gyflog byw gefnogaeth ar draws y sbectrwm gwleidyddol a mudiad o fusnesau annibynnol, sefydliadau a dinasyddion sy'n credu bod diwrnod teg o waith yn haeddu diwrnod teg o gyflog.

Nodwyd bod 29% o staff Cyngor Sir Ddinbych yn cael llai o gyflog na'r cyflog byw go iawn.

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Young ddiwygiad bod y Cyngor yn cytuno ystyried holl oblygiadau ariannol ac AD gweithredu cyflog byw go iawn, ac y dylai'r swyddogion perthnasol gyflwyno papur ar y pwnc i'r Cyngor Llawn erbyn diwedd

2018 ac y dylai'r papur hwn gynnwys yr holl gostau ariannol a goblygiadau AD a'r holl ddewisiadau sydd ar gael. Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill.

Yma, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y cynhelir pleidlais ar y diwygiad i ddechrau.

PLEIDLAIS:

O blaid y diwygiad - 23

Ymatal - 1

Yn erbyn y diwygiad - 21

Felly, pasiwyd y diwygiad, ac yna cynhaliwyd pleidlais ar y penderfyniad diwygiedig a'r diwygiad yw'r prif gynnig.

Roedd y Cynghorydd Joan Butterfield wedi gofyn am bleidlais wedi'i chofnodi a nododd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y nodwyd yn y Cyfansoddiad bod angen i un ran o chwech o'r Aelodau fod o blaid y bleidlais wedi'i chofnodi, a chytunodd y mwyafrif o'r Aelodau.

Cafwyd pleidlais wedi'i chofnodi, fel a ganlyn:

O blaid – Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Lloyd Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

Ymatal - 0

Yn erbyn – 0

Felly:

***PENDERFYNWYD*** y dylai'r Cyngor gytuno i ystyried holl oblygiadau ariannol ac AD gweithredu cyflog byw go iawn, ac y dylai'r swyddogion perthnasol gyflwyno papur ar y pwnc i'r Cyngor Llawn erbyn diwedd 2018 ac y dylai'r papur hwn gynnwys yr holl gostau ariannol a goblygiadau AD a'r holl ddewisiadau sydd ar gael.

## **9 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

“Mae'r Cyngor hwn yn galw:

- (i) Ar Lywodraeth y DU i oedi cyn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol

- (ii) Ar Lywodraeth Cymru i fynnu pwerau datganoli i amrywio sut y telir Credyd Cynhwysol yng Nghymru.”

Mynegodd Aelodau bryderon o ran y system Credyd Cynhwysol a fyddai'n cael ei gyflwyno, oherwydd gallai effeithio'n andwyol ar ddinasyddion mwyaf tlawd y sir.

Argymhellwyd bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth y DU i fynegi pryder a bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd i fynnu'r un pŵer i Gymru ag sydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

Cynigiwyd y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Rhys Thomas, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Jones a dyma oedd:

**PENDERFYNWYD**, yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan Grŵp Plaid Cymru, bod llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynegi pryder o ran Credyd Cynhwysol ac yn mynnu bod Cymru yn cael yr un pwerau â'r Alban a Gogledd Iwerddon.

## 10 AELODAU SY'N GEFNOGWYR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro yr adroddiad Aelodau sy'n Gefnogwyr (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i ailbenodi Cynghorwyr i bedwar rôl "aelod sy'n gefnogwr" a gofynnodd am ddatganiadau o ddiddordeb.

Bu i'r Cyngor blaenorol osod y fframwaith ar gyfer aelodau sy'n gefnogwyr a phenodi cynghorydd i bob rôl. Dim ond dau o'r Cynghorwyr a benodwyd oedd dal yn aelodau'r Cyngor Sir ac yn dilyn etholiadau'r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai 2017, ystyriwyd ei bod yn briodol gofyn am farn y Cyngor am aelodau sy'n gefnogwyr.

Enwebwyd y Cynghorydd Ellie Chard fel y Cefnogwr Pobl Hŷn.  
Enwebwyd y Cynghorydd Ann Davies fel y Cefnogwr Gofalwyr.  
Enwebwyd y Cynghorydd Arwel Roberts fel y Cefnogwr Anabledau Dysgu.

Enwebwyd y Cynghorwyr Brian Blakeley a Tony Thomas fel y Cefnogwr Digartrefedd, a chynhaliwyd pleidlais fel a ganlyn:

- O blaid Brian Blakeley - 27
- Ymatal - 1
- O blaid Tony Thomas - 9

Felly, pleidleisiwyd dros y Cynghorydd Brian Blakeley fel y Cefnogwr Digartrefedd.

**PENDERFYNWYD** bod y Cynghorwyr a enwebwyd yn dod yn Aelodau sy'n Gefnogwyr:

- Cefnogwr Pobl Hŷn – Ellie Chard
- Cefnogwr Digartrefedd – Brian Blakeley
- Cefnogwr Gofalwyr – Ann Davies, a
- Cefnogwr Anabledau Dysgu – Arwel Roberts.

## 11 PENODI AELOD LLEYG ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad Penodi Aelod Lleyg Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi hysbyseb ar gyfer swydd aelod lleyg annibynnol a sefydlu panel o uchafswm o bum aelod i ystyried pob cais a dderbyniwyd a gwneud argymhelliad i'r Cyngor ar y penodiad. Yng nghyfarfod y Panel ar 17 Hydref, penododd y Cyngor y Cynghorwyr Gareth Davies, Richard Mainon a Mark Young i'r Panel.

Roedd dau ymgeisydd am swydd yr aelod lleyg, ac fe gyfwelwyd y ddau gan y Panel ar 19 Ionawr 2018. Ystyriai'r Panel mai Mr Peter Lamb oedd yr ymgeisydd mwyaf addas, ac felly fe argymhellwyd y dylai'r Cyngor Llawn ei benodi.

***PENDERFYNWYD*** penodi Mr Peter Lamb i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod sy'n dod i ben ar ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2022.

## 12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd yn flaenorol).

Briffio'r Cyngor – 12 Mawrth 2018 – Cais Twf Rhanbarthol i gael ei ychwanegu at y Rhaglen.

***PENDERFYNWYD***, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.25 p.m.**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 20 Chwefror 2018 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Andrew Thomas, Tony Thomas, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 (RW), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Prif Reolwr, Addysg a Gwasanaethau Plant (JW), Prif Reolwr, Gwasanaethau Cefnogi (AL), Rheolwr Prosiect Rhanbarthol – Aseiad Poblogaeth (SB), Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol (BJE), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Pat Jones, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Julian Thompson-Hill a/ac David Williams

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y Cynghorydd Paul Penlington yn datgan diddordeb personol yn eitem 10 – Penodi Aelod Dinas, Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau.

Roedd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yn datgan cysylltiad personol ar gyfer y cwestiwn a godwyd o dan Eitem 3 – materion brys.

#### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

Ar y pwynt hwn gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gwestiwn.

Yn unol â'r Cyfansoddiad, roedd y Cynghorydd Davies wedi rhoi dau ddiwrnod clir o rybudd o'r cwestiwn lle byddai'n derbyn ymateb ond ni chynhelir trafodaeth.

Roedd y cwestiwn a gyflwynwyd fel a ganlyn:

Mae'r Adran Priffyrdd o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980 yn gyfrifol am sicrhau bod perchnogion coed, gwrychoedd a thyfiant ar hyd y priffyrdd yn cael ei dorri yn ôl i ganiatáu i gerddwyr, marchogion ceffylau a thraffig gael mynediad clir, dirwystr ar ffyrdd y Sir.

Derbyniwyd e-bost clir a dealladwy gan Jon Chapman ar 14 Tachwedd 2017 sy'n amlinellu'r gofynion rheoleiddio ar ffermwyr a thirfeddianwyr.

Felly pam bod y Cyngor a'r adran uchod yn gwrthod torri a lladd tyfiant gwrychoedd, coed ac ati sy'n tyfu ar ochr ffyrdd (i waliau Castell Bodolwyddan) a ffermwyr lleol (Engine Hill) o Ffordd Glascoed, B5381 wrth dai rhif 1-8 Ffordd Glascoed, i lawr (Engine Hill) er enghraifft?

Ymateb gan yr Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy, y Cynghorydd Brian Jones:

Mae ein camau ar gyfer gwrychoedd a choed ar ymyl ffyrdd yn gyson gyda'r camau a amlinellir yn y gweithdrefnau ar gyfer delio gyda choed a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 18 Ionawr 2018. Mae pob mater yn cael ei asesu yn ei haeddiant ei hun, a'r rheol gyffredinol yw na fyddwn yn cymryd unrhyw gamau oni bai bod y tyfiant yn cynnwys mater sylweddol e.e. perygl ar y briffordd. Ni ystyrir bod y mater penodol hwn yn cynnwys perygl ar hyn o bryd, ac felly ni chymerir unrhyw gamau ar hyn o bryd.

#### **4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 25 Ionawr 2018 - 10 Chwefror 2018 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** derbyn y rhestr o ymrwymadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd.

#### **5 TRETHER Y CYNGOR 2018/19 A MATERION CYSYLLTIEDIG**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans adroddiad Treth y Cyngor 2018/19 a Materion Cysylltiol (dosbarthwyd yn flaenorol) yn lle'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hugh Evans yn benodol at:

- Brif nodweddion y gyllideb gafodd ei chymeradwyo ar 30 Ionawr 2018
- Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid ar gryfder yr amcangyfrifon cyllidebol
- Dadansoddiad o'r praeseptau gan Gyngorau Dinas, Tref a Chymuned a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ac
- Argymhellion ar gyfer lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2018/19.
- Cynnydd o £1.792miliwn mewn arian i ysgolion a
- Darparu £1.5miliwn i gydnabod y pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion a phlant.

Yn dilyn y drafodaeth:

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn:

- (i) *Ei bod yn ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio i ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru a'r Cynghorau Dinas, Tref/Cymuned a datgan lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.*
- (ii) *Cymeradwyo'r argymhelliad bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel adran 3 Atodiad A.*
- (iii) *Cymeradwyo'r argymhelliad bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel Atodiad A Adran 4.*
- (iv) *Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel y cyflwynir yn Atodiad C a*
- (v) *Bod lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B ac C fel y nodir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth nac amodau lleol.*

## **6 CYNLLUN CYFALAF 2017/18 - 2020/21 AC ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad Cynllun Cyfalaf (dosbarthwyd yn flaenorol) yn lle'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch.

Rhodddwyd adroddiad i'r Cyngor ar y Cynllun Cyfalaf llawn diwethaf ym mis Chwefror 2017. Roedd diweddariadau misol wedi eu rhoi i'r Cabinet. Roedd y Cynllun Cyfalaf amcangyfrifedig bellach yn £38.5 miliwn. Roedd y Cynllun wedi cael ei ddiweddarau ers adrodd arno i'r Cabinet ar 23 Ionawr 2018.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid yr Aelodau drwy'r adroddiad.

Ymatebodd yr Arweinydd a'r Pennaeth Cyllid i'r cwestiynau ynglŷn ag amrywiol agweddau o'r Cynllun Cyfalaf. Roedd prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol -

- Cafodd llifogydd ei godi fel mater a hefyd ymholiad ynglŷn â'r adroddiad Asesu Llifogydd yr arhoswyd amdano. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y byddai'n holi am yr adroddiad Asesu Llifogydd ar ran yr Aelodau.
- Cadarnhawyd os byddai'r Awdurdod Lleol yn cwrdd â'r meini prawf, y byddent yn gallu cael mynediad i Gynllun Benthyciad Canol Tref a fyddai'n fenthyciad di-log 15 mlynedd gan Lywodraeth Cymru.
- Byddai adroddiad Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol ac o fewn y pecyn byddai yna ymrwymiad i

ariannu a chydabod yr angen yn y Rhyl am ysgol gynradd newydd ar Ystâd Aberkinsey, ynghyd â materion eraill a godwyd gan ysgolion yn Sir Ddinbych.

- Cafodd y mater o leihau terfyn cyflymder ar y ffordd a elwir yn Ffordd Syth Abergele yn Rhuddlan ei godi. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy bod ffurflen ar gyfer cynnig yn cael ei chyflwyno i'r Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio er mwyn i adroddiad gael ei drafod yn y Pwyllgor Archwilio.

Mynegodd yr Aelodau eu diolch i'r Pennaeth Cyllid, Richard Weigh a'i dîm, ynghyd â'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill am eu holl waith caled.

**PENDERFYNWYD** bod:

- *Yr Aelodau yn nodi'r diweddaraf ar elfen Cynllun Cyfalaf 2018/18 a'r diweddariad ar brosiectau mawr.*
- *Yr Aelodau'n cefnogi argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y nodir yn Atodiad 5 a chrynhwir yn Atodiad 6.*
- *Yr Aelodau yn cefnogi argymhelliad y Cabinet i gymeradwyo'r 25k ar gyfer cynnig terfyn cyflymder 40mya Bwlch yr Oernant fel y manylir yn Atodiad 5 ac sydd wedi ei grynhoi yn Atodiad 6.*
- *Aelodau yn cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2018/19.*

Ar y pwynt hwn cytunwyd i amrywio trefn y Rhaglen i gwblhau'r cyflwyniad ar yr eitemau cyllid.

**7 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2018/19 A DANGOSYDDION DARBODUS 2018/19 - 2020/21**

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19 a Dangosyddion Darbodus 2018/19 i 2020/21 (dosbarthwyd yn flaenorol) yn lle'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch.

Roedd Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r DSRhT a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad ac yn dilyn trafodaeth, mynegodd yr Aelodau eu diolch i'r Pennaeth Cyllid, Richard Weigh a'i dîm, ynghyd â'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill am eu holl waith caled.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn:

- *Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19 a fanylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*
- *Cymeradwyo gosod Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2018/19, 2019/20 a 2020/21 a fanylir yn Atodiad 1 yr adroddiad*
- *Cymeradwyo'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw fel y manylir yn Atodiad 1 Adran 6 yr adroddiad*

- *Cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les, fel y manylir yn Atodiad 2 yr adroddiad, fel rhan o'i ystyriaethau.*

**Ar y pwynt hwn (11.40 a.m.) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.00 canol dydd.**

## **8 CYNLLUN RHANBARTHOL ASESIAD O BOBLOGAETH GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth, y Cynghorydd Bobby Feeley, adroddiad Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru (a oedd wedi ei gylchredeg yn flaenorol).

Roedd rhaid i'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau lechyd yn rhanbarth Gogledd Cymru lunio Cyd Gynllun Ardal 5 mlynedd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth erbyn 1 Ebrill 2018. Roedd hyn yn ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017.

Roedd rhaid i'r Cynllun ganolbwyntio ar y gwasanaethau integredig a gynlluniwyd mewn ymateb i bob thema a nodwyd yn yr asesiad poblogaeth.

Roedd y cyd gynlluniau i ddarparu disgrifiad o'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau a gynigiwyd eu darparu, neu eu trefnu, i ymateb i'r anghenion gofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr, a nodwyd yn y cyd adroddiadau asesiadau poblogaeth.

Roedd ymgynghoriad wedi ei gynnal ar y Cynllun drafft rhwng 11 Awst a 17 Tachwedd 2017. Roedd yr ymgynghoriad wedi ceisio cynnwys cynifer o bobl â phosibl yn y dasg o ysgrifennu a llunio'r cynllun yn gynnar yn y prosiect. Roedd canfyddiadau'r ymgynghoriad wedi eu hymgorffori mewn drafft diwygiedig o'r cynllun ac roedd adroddiad ymgynghori llawn wedi ei gynhyrchu.

Ar y pwynt hwn diolchodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Bobby Feeley, i'r swyddogion am eu gwaith caled. Cadarnhaodd fod hyn nawr yn sylfaen hynod o gryf, yn arbennig yn sgil y boblogaeth hyn gynyddol a phoblogaeth y plant sy'n derbyn gofal.

Yn dilyn trafodaeth:

**PENDERFYNWYD** bod:

- *Aelodau yn cymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru drafft.*
- *Y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad C) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 9 CYNLLUN LLES BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH 2018 – 2023

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, Gynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023 (a oedd wedi ei gylchredeg yn flaenorol).

Sefydliad statudol o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd drafft cyntaf y cynllun wedi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad rhwng 30 Hydref 2017 a 22 Ionawr 2018. Roedd y drafft cyntaf yn cynnwys chwe blaenoriaeth ond yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar 29 Ionawr 2018, cafodd y chwe blaenoriaeth eu hail-drefnu yn dri:

- (i) Pobl – Lles meddyliol da i bob oed (gan gynnwys y 1000 diwrnod cyntaf ac effaith hyn ar ddyfodol person)
- (ii) Cymuned - Ymrymuso'r Gymuned (gan gynnwys gwydnwch pobl ifanc a phobl hŷn), a
- (iii) Lle – Gwydnwch amgylcheddol.

Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol Sir Ddinbych.

Roedd y Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 14 Rhagfyr i gyflwyno'r cynllun drafft a thrafod safbwynt y Pwyllgor ar gwestiynau'r ymgynghoriad.

Ar y pwynt hwn, darllenodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones ddatganiad yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau oedd fel a ganlyn:

Gan mai'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yw pwyllgor archwilio dynodedig y Cyngor ar gyfer materion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, roedd yn un o'r rhai a ymgynghorwyd ag o'n statudol ar y Cynllun Lles drafft. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ar flaenoriaethau a chynnwys Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2017. Mae'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor wedi eu nodi mewn atodiad i'r adroddiad a gyflwynir i chi heddiw, ac mae pob un ohonoch wedi cael cyfle i'w ddarllen. Byddwch yn gweld o'r pwyntiau a godir gan y Pwyllgor yn y cyfarfod fod:

- Aelodau yn cydnabod fod y Cynllun ei hun yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n nodi amcanion a dyheadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y pum mlynedd nesaf. Byddai ei ddarparu, felly, yn ddibynnol ar gynlluniau darparu traws-sefydliadol a chydweithio effeithiol gan bob partner;
- Cododd aelodau nifer o bwyntiau yn ymwneud â hyrwyddo gwydnwch ymysg pob grŵp oedran i wella iechyd a lles (corfforol a meddyliol), lleihau gordewdra ac arwahanrwydd cymdeithasol ac ati. Mae felly'n ddymunol fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn sgil yr ymarferiad ymgynghori, wedi penderfynu canolbwyntio ar y tri phrif flaenoriaeth sef:

- i. Pobl – Lles meddyliol da i bawb o bob oed (gan gynnwys y 1000 diwrnod cyntaf ac effaith hyn ar ddyfodol person)

- ii. Cymuned - Grymuso'r Gymuned (gan gynnwys gwydnwch pobl ifanc a phobl hŷn)
  - iii. Lle – Gwydnwch amgylcheddol  
gan fod pob un yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd, ac yn cyd-fynd â'i gilydd. Maent hefyd yn cefnogi ideoleg atal a gweithio mewn partneriaeth effeithiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 at y diben o fagu gwydnwch a gwella lles.
- sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â'r pŵer i weithredu'r blaenoriaethau a restrir yn y Cynllun Lles, h.y. drwy eu cynlluniau strategol, yma yn Sir Ddinbych, ein Cynllun Corfforaethol. Roedd yn ddymunol felly i weld fod y themâu yn y Cynllun Lles terfynol yn cyd-fynd â'n Cynllun Corfforaethol. I lwyddo i ddarparu ein Cynllun Lles byddai angen i bob sefydliad partner weithio'n effeithiol gyda'i gilydd, byddai hefyd angen iddynt gael sianelau cyfathrebu clir gyda'i gilydd a gyda thrigolion.
  - er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â darparu'r Cynllun, bydd Archwilio yn monitro cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflawni'r blaenoriaethau a'r Cynllun.

Gan fod gan Sir Ddinbych Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd â Chonwy, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i archwilio'r dull mwyaf effeithiol i ni gyflawni ein blaenoriaethau o archwilio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn fuan, bydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio yn ystyried nifer o ddewisiadau posibl ar gyfer archwilio'r Bwrdd yn y dyfodol, gan gynnwys y posibilrwydd o gyflwyno trefniadau archwilio ar y cyd gyda Chonwy. Yn y cyfamser, bydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn parhau i weithredu fel pwyllgor archwilio dynodedig y Cyngor ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cyn cyhoeddi'r Cynllun roedd rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Fyrddau pob sefydliad oedd yn rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn achos yr Awdurdodau Lleol, roedd rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd y cynllun busnes ar gyfer Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl wedi ei gylchredeg eto. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth, y Cynghorydd Bobby Feeley, yn dilyn cyfarfod gyda Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pete Higson, y byddai'r Cynllun Busnes yn cael ei ail gyflwyno ym Mawrth 2018 a chadarnhaodd fod yna ymrwymiad 100% gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra.
- Cadarnhawyd y byddai cydweithio gyda phartneriaid sector cyhoeddus, gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol yn golygu y byddai'r Cynllun yn mynd yn ei flaen i wella ansawdd bywyd trigolion.

Yn dilyn trafodaeth:

**PENDERFYNWYD** bod:

- (i) Y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad A) fel rhan o'i ystyriaethau.

(ii) Y Cyngor yn cefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023.

## 10 **PENODI AELOD CYNGOR DINAS, TREF A CHYMUNED I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro Benodiad aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned i adroddiad y Pwyllgor Safonau (a oedd wedi ei gylchredeg yn flaenorol).

Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi hysbyseb ar gyfer swydd aelod Cyngor Dinas, Tref a Chymuned a sefydlu Panel o uchafswm o bum aelod i ystyried pob cais a dderbyniwyd a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar y penodiad. Yng nghyfarfod y Panel ar 17 Hydref, penododd y Cyngor y Cynghorwyr Gareth Davies, Richard Mainon a Mark Young i'r Panel.

Roedd tri ymgeisydd ar gyfer swydd yr aelod Dinas, Tref a Chymuned a chawsant eu cyfweld gan y Panel ar 19 Ionawr 2018. Y Cynghorydd Gordon Hughes o Gyngor Tref Corwen a ystyriwyd gan y Panel i fod yr ymgeisydd mwyaf addas ac felly cafodd ei argymhell i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei benodi.

**PENDERFYNWYD** fod y Cynghorydd Gordon Hughes yn cael ei benodi i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod sy'n dod i ben ar ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2022.

## 11 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Briffio'r Cyngor - 12 Mawrth 2018 - Dileu Dull Cyflogaeth Strategol Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.35 p.m.**



**Adroddiad i'r: Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod: 10 Ebrill 2018**

**Swyddog Arweiniol: Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd**

**Awdur yr Adroddiad: Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd**

**Teitl: Trefniadau Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn y Cyngor Blynyddol**

---

## **1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Y trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/19.

## **2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn cael eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Pwrpas yr adroddiad yw cytuno ar y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/19 sydd i'w hethol yn ffurfiol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## **3 Beth yw'r argymhellion?**

3.1 Bod y Cyngor yn cytuno y bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018 yn cael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor 15 Mai 2018.

## **4 Manylion yr Adroddiad**

4.1 Yn 2006, cytunodd y Cyngor gyda chasgliadau'r Panel Moderneiddio blaenorol, bod y weithdrefn flaenorol pan gynhelid cyfarfod Blynyddol y Cyngor heb unrhyw sicrwydd go iawn ynglŷn â phwy fyddai'n cael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, yn tynnu oddi wrth urddas yr achlysur.

4.2 Penderfynodd y Cyngor y dylid mynd i'r afael â'r trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod a gynhelir cyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

4.3 Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yw'r Cynghorydd Peter Scott. Y traddodiad yw bod Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

4.4 Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp ddarparu enwebiadau ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Cyngor gogyfer â'r flwyddyn ddinesig nesaf. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw enwebiad wedi dod i law.

## **5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## **6 Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ar hyn o bryd telir cyflogau uwch o £21,600 ac £14,100 i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y drefn honno. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod.

## **7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Nid oes angen asesiad o effaith mewn perthynas â'r penderfyniad.

## **8 Pa ymgynghori a wnaed?**

8.1 Ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grŵp ynghylch enwebu aelodau i rôl Is-Gadeirydd y Cyngor.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

## **10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risg i enw da'r Cyngor os nad oes sicrwydd pwy gaiff eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd arfaethedig y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol.

## **11 Pŵer i wneud y Penderfyniad?**

11.1 Adran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.  
Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cyngor Sir</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>10 Ebrill 2018</b>
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2018/19</b>

---

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (y Panel) ar gyfer 2018/19.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Lluniwyd yr adroddiad hwn i gynghori ynghylch penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2018/19 mewn perthynas â thaliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig, ac i fabwysiadu atodlen cydnabyddiaeth ariannol.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Cyngor yn nodi penderfyniadau'r Panel ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19 mewn perthynas â thalu Cyflogau Sylfaenol, Uwch a Dinesig a thaliadau i aelodau cyfetholedig.
- 3.2 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol fel y nodir yn atodiad 1 (sydd heb newid ers 2017/18 heblaw fel yr amlinellir ym mharagraff 4.4) ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19.

## 4 Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn 2008. Cafodd cylch gwaith a swyddogaethau'r Panel eu hystyngtu ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys cynghorwyr, aelodau eraill o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned yn ogystal â chynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol.

Mae'r Panel yn gallu pennu'r swm gwirioneddol y taliad y caiff awdurdod ei wneud i aelod a dyletswyddau a chyfrifoldebau a all wneud cynghorwyr yn gymwys i dderbyn taliadau.

- 4.2 Mae'n ofynnol i'r Panel gynhyrchu adroddiad blynyddol yn nodi lefelau tâl yr aelodau ar gyfer gwahanol ddyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer blwyddyn y Cyngor i ddod. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu argymhellion y Panel. Gellir gweld adroddiad blynyddol 2018/19 drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

- 4.3 Mae adroddiad y Panel yn nodi tri band y Cyngor, yn nodi nifer y Cynghorwyr ym mhob un ac uchafswm nifer yr uwch gyflogau y gall y cyngor perthnasol eu talu.

Mae'r grwpiau hyn wedi eu nodi yn Nhabl 1 yr adroddiad blynyddol. Mae Tabl 2 yn nodi'r cyflog sylfaenol ac uwch gyflogau fydd yn daladwy i Aelodau Cynghorau yn 2018/19.

- 4.4 Eleni mae'r Panel wedi penderfynu darparu codiad ariannol o £200 y flwyddyn i gyflog sylfaenol bob Cynghorydd, yn weithredol o fis Ebrill 2018. Nid oes unrhyw newid i lefelau cyflog uwch neu ddinesig ers y llynedd ond bydd deiliaid y swyddi hyn yn derbyn codiad ariannol i'r cyflog sylfaenol a delir i bob Cynghorydd.

Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r Panel wedi caniatáu'r posibilrwydd ar gyfer lefelau taliadau is ar gyfer y rhan fwyaf o aelodau'r Cabinet a chadeiryddion pwyllgorau ond mae'r dewisiadau hyn wedi'u hepgor eleni.

- 4.5 Mae'r Panel yn bendant o'r farn nad yw cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraeth leol yn ddigost.

Mae tâl a ariennir yn gyhoeddus ar gael i annog amrywiaeth o bobl leol bodlon a medrus i ymgymryd â rôl mewn llywodraeth leol, drwy eu swyddogaethau etholedig, penodedig neu gyfetholedig.

- 4.6 Pan wnaeth y Panel ei benderfyniadau cychwynnol yn ei adroddiad yn 2009 roedd wedi alinio taliadau i Aelodau gydag enillion gros canolig holl weithwyr llawn amser a oedd yn byw yng Nghymru ac roedd y cyflog sylfaenol wedi'i osod ar 3/5 o gyflog canolig Cymru Gyfan.

Daeth y Panel i'r casgliad y dylid ystyried swyddi Aelodau'r Cabinet yn rhai llawn amser. Wrth osod y cyflogau hyn, roedd y Panel yn cydnabod bod cyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

- 4.7 Cyflogau Dinesig - Cyflwynodd y Panel lefelau cyfrifoldeb ar gyfer pob cyngor i bennu lefel y taliadau ar gyfer arweinwyr dinesig a dirprwy arweinwyr dinesig.

Ar gyfer Sir Ddinbych mae hyn yn golygu Cadeirydd y Cyngor ac Is-gadeirydd y Cyngor. Mae'r lefelau'n parhau heb eu newid (heblaw am y cynnydd o £200 i gyflogau sylfaenol) ac wedi'u dangos isod.

	Arweinwyr Dinesig	Dirprwy Arweinwyr Dinesig
a	£24,300	£18,300
b	£21,800	£16,300
c	£19,300	£14,300

- 4.8 Ym mis Ebrill 2014, penderfynodd y Cyngor bennu lefel y taliadau ar gyfer Cadeirydd y Cyngor ar lefel b ac ar lefel c ar gyfer yr Is-gadeirydd. **Mae'r ddau ffigur yn y tabl uchod yn cynnwys y cyflog sylfaenol y mae gan bob cynghorydd yr hawl iddo sef £13,600.** Nid yw tâl Cyflogau Dinesig wedi'i gynnwys yn y cap ar nifer yr Uwch Gyflogau sydd ar gael i'r awdurdod.

Gall y Cyngor benderfynu peidio â thalu unrhyw Gyflogau Dinesig.

- 4.9 Band Cyflog Uwch 1 a 2 - Mae'r Panel wedi penderfynu ar bum band o Uwch Gyflog. Mae Band 1 yn cynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ac mae Band 2 yn cynnwys Aelodau eraill y Cabinet. Mewn trafodaethau'r Panel gydag Aelodau

